

Croeso

*Herio pob disgybl ym Mlynnyddoedd 1 a 2 yn
y ddarpariaeth sydd wedi'i chyfoethogi.*

Amcanion

- Cefnogi ymarferwyr i sicrhau bod disgyblion ym mlynnyddoedd 1 a 2 yn cael eu herio i gyrraedd eu llawn botensial o fewn meysydd y ddarpariaeth.
- Cynllunio gweithgareddau ystyrlon i ddatblygu sgiliau a dysgwyr annibynnol.
- Gwneud gwell defnydd o'r ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi ym mlynnyddoedd 1 a 2 er mwyn codi safonau.

Trosolwg o'r diwrnod

Sesiwn 1 – Addysgeg y Cyfnod Sylfaen

Sesiwn 2 – Datblygu Sgiliau Llythrennedd yn yr ardaloedd

Sesiwn 3 – Datblygu sgiliau Rhifedd yn yr ardaloedd

Sesiwn 4 – 'Yr Eliffant Eithaf Digywilydd' (esiampiau o dasgau Rhifedd a Llythrennedd)

Cinio

Sesiwn 5 – Defnyddio llyfrau i ddatblygu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd yn yr ardaloedd

Sesiwn 6 – Astudiaeth Achos – Ysgol Abercaseg, Bethesda / Ysgol Ffridd Y Llyn, Bala

Adroddiad Blynyddol Estyn Ionawr 2016



...Mewn ysgolion da.....

- Mae staff yn cynllunio'n greadigol, gan roi ystyriaeth ofalus i'r hyn y mae plant eisoes yn ei wybod, yn gallu ei wneud ac yn ei ddeall.
- Maent yn cysylltu gweithgareddau yn cael eu harwain gan blant a gweithgareddau yn cael eu harwain gan oedolion yn dda â'i gilydd i adeiladu dysgu disgyblion drwy ystod o gyd-destunau pwrpasol.
- Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu gweithgar, annibynnol, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion i ymarfer a gwella eu medrau llythrennedd, rhifedd, a'u medrau personol a chymdeithasol

Adroddiad Blynyddol Estyn Ionawr 2016



Yn ol Estyn :lle mae'r ddarpariaeth yn rhagorol,

- mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth drwyadl o athroniaeth a diben y Cyfnod Sylfaen.

Mae arweinwyr hyderus a gwybodus yn annog staff i fod yn ddyfeisgar gyda'r cwricwlwm.

Mae ysgolion rhagorol yn gwneud yn siŵr bod plant yn cael profiad o holl elfennau'r saith maes dysgu yn rheolaidd.

Adroddiad blynyddol Estyn 2016



- Lle ceir diffyg hyder ymhlith arweinwyr ac athrawon yn eu dealltwriaeth o ddulliau addysgu a gofynion y cwricwlwm, maent yn amharod i ddehongli'r cwricwlwm yn feiddgar ac yn hyblyg. Maent yn aml yn troi'n ôl at ddulliau ffurfiol, caeth wrth ddesg, ac nid yw disgyblion yn elwa ar y dulliau dysgu gweithredol sy'n annog eu medrau datrys problemau, eu creadigrwydd a'u medrau meddwl yn feirniadol. Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhai arweinwyr, yn gamsyniol, yn meddwl mai dim ond dull ffurfiol o ddysgu fydd yn sicrhau bod plant yn perfformio'n dda mewn profion cenedlaethol ym Mlwyddyn 2. Mae rhai eraill yn camddehongli athroniaeth y Cyfnod Sylfaen trwy gynnig gormod o ddewis i ddisgyblion ac esgeuluso addysgu medrau sylfaenol.

Adroddiad WISERD Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen

“The most effective Foundation Phase classrooms have a balance of focused, enhanced and continuous tasks. Children are twice as likely to reach expected outcomes in LLC and MD if these areas of learning are implemented with a higher degree of child choice/participation.”

Dyfodol Llwyddiannus

Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm
a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru

Yr Athro Graham Donaldson CB
Chwefror 2015



‘..mae'r holl dystiolaeth
yn dangos bod rhai
cryfderaun gwirioneddol
yn y trefniadau
cwricwlwm presennol
yng Nghymru y gallwn
eu datblygu – yn bennaf
oll, yr addysgeg sy'n sail
i'r Cyfnod Sylfaen a'r
ymrwymiad i'r Gymraeg
a'i diwylliant.’

‘Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen cwricwlwm symlach a
mwy cysylltiedig a fydd yn eang, yn darparu ar gyfer dysgu
dyfnach, yn sicrhau gwell dilyniant ac yn rhoi cyfle i ddefnyddio
amser mewn ffordd fwy creadigol. Mae'r dystiolaeth hefyd yn
ffafrio mwy o bwyslais ar sgiliau ac ymestyn y dull o weithredu
sydd wedi'i fabwysiadu yn y Cyfnod Sylfaen, lle y defnyddir
MeysyddDysgu yn hytrach na phynciau ar wahân fel blociau
adeiladu.’

Fframwaith Arolygu Estyn Medi 2017



1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol

Dylai arolygwyr edrych ar gynnydd disgyblion â medrau cymharol wan nad ydynt yn cael cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried a yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent o ystyried eu manau cychwyn a'u hoedran a'u gallu. Er enghraifft, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae disgyblion â medrau mwy datblygedig yn cyflawni a'r graddau y mae'r gwaith a wnânt yn eu hymestyn yn llawn i gyflawni cystal ag y gallent.

Fframwaith Arolygu Medi 2017

3.1 'Ansawdd yr addysgu' yn nodi bod angen gwirio **fod y ddarpariaeth yn cynnig y lefel briodol o her**

Yr ystyriaeth allweddol yw a yw'r addysgu yn llhyddo i ennyn diddordeb disgyblion ac a yw'n datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i lefel briodol o uchel wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol.

3.2 'Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm' yn nodi

Mewn ysgolion â disgyblion hyd at ac yn cynnwys Bhryddyn 2, dylai arolygnwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn cyfrif am egnyddorion y Cyfnod Sylfaen

Dysgwyr annibynnol

Lles

Cydbwysedd o'r dysgu yn
cael ei arwain gan yr athro/plentyn

Amser i
adfyfrio

Dysgu yn yr
awyr agored

Cymhelliad

Llais y disgybl

Archwilio

Prif Elfennau
Athroniaeth
Y Cyfnod Sylfaen

Ymarferol

Lefel y plentyn
nid oedran

Datrys problemau

Rôl yr oedolyn

Adnoddau amrywiol

Cydweithio

Heriau

Arsylwadau

Cyfleoedd pen agored

Creadigrwydd

Tasg

Ar raddfa o 1 i 5, nodwch ble ydych ar hyn o bryd yn nhermau prif elfennau athroniaeth y Cyfnod Sylfaen.

Sut mae plant yn dysgu orau?

Cymryd risg

Defnyddio offer priodol

Cael hwyl

Ailadrodd

Adfyfrio

Arbrofi

Gwranddo

Gofyn

Gwneud

Gwneud camgymeriadau

Gwyllo

Profi llwyddiant/
Cael eu canmol

Ymchwilio

Copïo/dynwared

Cyfathrebu

Yn unigol / mewn grŵp /
gyda phartner

Gweithio ar lefel briodol

Tasg

Trafodwch yr elfennau 'sut mae plant yn dysgu orau', a nodwch ym mha ddarpariaeth y maent yn debygol o ddigwydd.

- Tasg Ffocws
- Darpariaeth wedi'i chyfoethogi
- Darpariaeth Barhaus

Cwricwlwm Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

(Ddiwygiedig 2015)

Dylai plant gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy: .

gwricwlwm priodol o ran datblygiad lle mae'r saith Maes Dysgu (chwech mewn lleoliadau/ysgolion cyfrwng Cymraeg) yn cydfynd a chydweithio â'i gilydd

- gwahanol adnoddau, gan gynnwys TGCh

- cyfleoedd dysgu ymarferol sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol ac sy'n eu cefnogi i dyfu'n ddysgwyr annibynnol

gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrâu a bod yn greadigol a dychmygus

Addysgeg y Cyfnod Sylfaen

- profiadau sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau, gan gynnwys arwain mewn grwp bach, dysgu fesul pâr neu weithio mewn tîm

tasgau a heriau sy'n eu hannog i ddatrys problemau a thrafod

gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys rhai a ysgogir gan y plant

darpariaeth barhaus a chyfoethogi, a gweithgareddau â ffocws mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored

Sut allwn gyflawni hyn?

Drwy greu amgylchedd:

sy'n berthnasol i
ddiddordebau a
phrofiadau plant

Ile mae plant ac
oedolion yn
cael HWYL!

sy'n adeiladu ar
hyn a ddysgwyd
eisioes

sy'n caniatáu i
sgiliau ddatblygu

sy'n caniatáu i'r
plant wneud
dewisiadau, ac i fod
yn annibynnol

sy'n ddiogel

When a flower
doesn't bloom, you
fix the environment
in which it
grows, not
the flower.

-Alexander Den Heijer




@Cassiescreateabilities

bit.ly/Create-abilities

Create-abilities

Y Model Triongl



Sut rydyn ni'n ysgogi, yn cyfarwyddo ac yn modelu i blant yr hyn y mae angen iddyn nhw ei ddysgu er mwyn bod yn ddysgwyr gydol oes annibynnol, hyderus

Sut rydyn ni'n cyfoethogi ac yn ehangu'r ffordd mae plant yn dysgu

Yr hyn rydyn ni'n ei ddarparu i blant o ran cyfleoedd dysgu


Darpariaeth Barhaus

Yr hyn rydych yn ei ddarparu'n ddyddiol ar gyfer eich plant yn yr amgylchedd dysgu tu fewn a thu allan.

- Ardaloedd Darpariaeth Barhaus
- Trefn / rheolaeth
- Oedolion



- Mae 85% o ddysgu plant yn dod o'u rhyngweithiad mewn amgylchedd dysgu o ansawdd uchel
- Dyma lle mae'n rhaid i ymarferwyr arsylwi er mwyn cynllunio y camau nesaf.
- Yn y Ddarpariaeth barhaus, mae plant yn dangos beth maent yn ei ddeall ac yn ei wybod.



Darpariaeth Barhaus

Y Ddarpariaeth Barhaus:

- labelu'r ardaloedd yn glir
- trefnus
- ysgogol a deniadol
- adnoddau pwrpasol
- hygyrch
- labelu'r adnoddau
- cynnwys ardaloedd ac adnoddau i ddenu ac ysbrydoli marchied a bechgyn
- cyfleoedd i ddatblygu sgiliau TGCh



Mae'r ddarpariaeth barhaus yn rhoi'r canlynol i blant:

- amser i ymchwilio/ymarfer ac adeiladu ar yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu a'i ddeall;
- cyfle difygythiol i gymryd risgiau ac arbrofi gyda phethau;
- cyfle i ailarbrofi â sgiliau a chysyniadau nes eu bod yn gyfforddus gyda nhw a rhoi amser a chyfle i wneud y cysylltiadau angenrheidiol er mwyn deall.

**Adal
Ysgrifennu**

**Ardal
Wrando**

Tywod

Dŵr

**Theatr
Bypedau**

Greadigol

Toes

**Byd
Bach**

**Ardal
Lyfrau**

**Ardal
Gerdd**

Darganfod

**Ardal
Berfformio**

**Gemau
bwrdd**

**Chwarae
Rôl**

TGCh

Adeiladu

Blociau

Mathemateg


Trafodwch eich dosbarth eich hun

- Beth yw'r ddarpariaeth sydd gennych yn eich dosbarth?
- Ydy'r adnoddau yn cwrdd ag anghenion y plant?
- Ydy'r adnoddau wedi eu labelu yn hawdd cael mynediad atynt?
- Ydych yn rhoi cyfleoedd i blant ymarfer eu sgiliau yn yr ardaloedd ?
- Ydy disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu creadigedd, dychymyg a datrys problemau yn yr ardaloedd?

Darpariaeth wedi'i chyfoethogi

Cyfoethogi'r Ddarpariaeth yw'r hyn rydyn ni'n ei ychwanegu at y Ddarpariaeth Barhaus i greu cyfleoedd dysgu ychwanegol / wedi eu cyfoethogi, er mwyn symud y plant ymlaen.

Mae angen i ni symud y plant ymlaen drwy gyflwyno sgiliau newydd, cysyniadau a gwybodaeth a hynny'n seiliedig ar feysydd dysgu y Cyfnod Sylfaen.



Darpariaeth wedi'i chyfoethogi

- Yr hyn yr ydych yn ei ychwanegu at y ddarpariaeth barhaus i greu cyfleoedd dysgu sydd wedi eu cyfoethogi
- Syniadau/adnoddau sy'n gysylltiedig â thema'r dosbarth
- Dylai'r ddarpariaeth adlewyrchu diddordebau ac anghenion y disgyblion
- Ymweliadau/Ymwelwyr
- Digwyddiadau'r calendr/tymhorol
- Targedu sgiliau penodol dan sylw
- Heriau/tasgau



modelu sut i
ddefnyddio'r
offer yn gywir
ac yn ofalus

annog
annibyniaeth

cefnogi ac
ymestyn y
dysgu

Beth yw rôl yr
oedolyn yn yr
ardaloedd?

cwestiynu
effeithiol

gwneud
arsylwadau
/ asesu

modelu geirfa a
phatrymau
brawddegol

cymeryd rôl
weithredol/
cymeryd
rhan

modelu
ymddygiad

Sefyll yn ôl
a gwrando

Rôl yr oedolyn

• Rol yr oedolyn mewn **Tasgau Ffocws** yw arwain, datblygu syniadau, gwrando, ymateb I theoriau ac awgrymiadau'r plant ac addysgu sgiliau, gwybodaeth a chysyniadau yn uniongyrchol.

• Mae **Cyfoethogi'r ddarpariaeth** yn golygu bod yr oedolyn yn cyfoethogi ac yn ehangu'r dysgu drwy ddarparu adnoddau ychwanegol a chyflwyno syniadau newydd.

• Mewn **Darpariaeth Barhaus**, mae'r plant yn chwarae ac yn cael hwyl. Nid cyflawni tasgau sy'n bwysig. Mae gan yr oedolyn rol allweddol sef sicrhau bod y plant yn gwneud y mwyaf o'u chwarae.

Rôl yr oedolyn

- Er mwyn mesur cynnydd disgyblion, mae'n rhaid cynllunio cyfleoedd ar gyfer arsylwi nid yn unig o fewn tasgau ffocws ond hefyd o fewn yr ardaloedd parhaus a chyfoethogi o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Mae asesu a chofnodi tystiolaeth o ddysgu a datblygiad plant yn rhan allweddol o rôl bob ymarferydd y Cyfnod Sylfaen.

Modelu



Hyfforddi



Gwobrwyo

Ardaloedd

Hygyrch
Adnoddau pwrpasol
Labelu clir

Hybu Annibyniaeth



Darparu:

Adnoddau
gweledol,
clywedol a
chyffyrddol

Annog plant i:

Siarad
Cwestiynu
Rhannu syniadau
Cynllunio
gweithgareddau
Gwneud
penderfyniadau

Arddangos:

Enghreifftiau
o waith
Meini Prawf
Llwyddiant

Tasgau yn yr ardaloedd wedi'i cyfoethogi

- Gosodwch dasgau sydd yn atgyfnerthu cysyniadau a sgiliau a gyflwynir ar lefel gweithgaredd ffocws.
- Mae'n rhaid i'r heriau sy'n cael eu gosod o fewn ardaloedd fod ar yr un lefel o her a'r hyn a addysgir yn ystod gweithgaredd ffocws.
- Gwahaniaethwch y tasgau yn arbennig y rhai sy'n gysylltiedig â sgiliau Llythrennedd a Rhifedd.
- Yn achylsurol, darparwch dasgau penagored a chyfleoedd i ddatrys problemau.
- Rhowch gyfleoedd i blant fod yn greadigol a dychmygus.
- Ymgorfforwch sgiliau'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol i mewn i'ch heriau.

Cynllunio tasgau mewn ardaloedd sydd yn herio plant

Pa sgiliau
sydd am gael
eu datblygu?

Beth yw'r
dasg?

Ar gyfer
pwy mae'r
dasg?

Pam fod y
plentyn yn
cyflawni'r
dasg?

Ydy'r dasg yn
adeiladu ar
ddysgu
blaenorol?

A yw'r dasg yn
atgyfnerthu
sgiliau a
ddysgwyd?

Beth fydd fy
nhystiolaeth?

A yw'r plentyn yn
cael y cyfle i
ymarfer ei
dargedau?



Mae pob plentyn yn bwysig

Ydw i'n
gwybod beth
sydd angen
ei wneud?

Ydy'r gwaith yn
rhy
hawdd/anodd?

Beth ydw i'n
ei ddysgu?

Ydw i'n
mwynhau'r
gwaith?

Ydy hwn yn
adeiladu ar beth
rwy'n ei wybod
yn barod?

Ydw i'n
gwybod ble i
gael cymorth os
ydw i'n cael
trafferth?

Oes gen i'r
sgiliau i ateb
y cwestiwn?



Sut ydw i'n gwahaniaethu tasgau wrth gyfoethogi ardaloedd?

Tasg -

Gosod gwahanol dasgau i wahanol blant

adnoddau -
scaffaldiau,
fframiau ayyb

Y Cynnwys -
tasgau mwy neu
llai cymhleth

Disgwyliad -
tasgau penagored
caniatáu atebion
ar wahanol
lefelau

Lefel annibyniaeth

Amseriad -
mwy o amser,
cyfyngiadau
amser

Hygyrchedd -
cymorth gweledol /
clywedol

Cyd-destun -
dewis cyd-destun
mwy perthnasol
i'r dysgwr

Cefnogaeth -
cymhorthyddion,
athrawon,
cyfoedion

Enhanced Provision/Darpariaeth wedi'i Gyfoethogi


Date/Dyddiad:



 Sand <u>Tywod</u>	 Water <u>Dŵr</u>	 Paint <u>Paent</u>	 Dough <u>Toes</u>	 Small World <u>Byd Bach</u>
 Construction Blocks <u>Adeiladu/Blociau</u>	 Role Play <u>Chwarae Rôl</u>	 Table top <u>Gweithgareddau bwrdd</u>	 Mark Making <u>Ardal Ysgrifennu</u>	 Make it Area <u>Cornel Creu</u>
 Book Corner <u>Cornel Ddarllen</u>	 Investigation <u>Darganfod</u>	Maths Area <u>Ardal Mathemateg</u>	 Music <u>Cerdd</u>	 Physical <u>Corfforol</u>

Additional Experiences/Profiadau Ychwanegol:

Tasgau Ffocws




Nid yw'r tasgau ffocws yn sefyll ar eu pen eu hunain. Rhaid i'r plant gael y cyfle i ymarfer sgiliau / cysyniadau / gwybodaeth yn yr ardaloedd dysgu a hynny mewn cyd-destun perthnasol.

Felly, mae'n rhaid adlewyrchu'r tasgau ffocws yn yr amgylchedd ddysgu – h.y. cyfoethogi'r ddarpariaeth barhaus.

Fel ymarferwyr, mae'r tasgau ffocws yn rhoi'r cyfle inni gyflwyno sgil/cysyniad newydd, a modelu yr hyn yr ydym am i'r plant ei wneud yn annibynnol.

Mae hyn i gyd yn rhoi'r cydbwysedd hanfodol inni rhwng:



Dan arweiniad
ymarferwyr/ wedi'i
ysgogi gan y plant

Addysgu/dysgu

Dewis/ cyfarwyddo
gweithgareddau

Chwarae wedi'i
gynllunio/difyfyr

Dysgu annibynnol/ wedi'i
gyfarwyddo

Addysgu a fodelir /
effaith amgylchedd
dysgu

cyfleoedd i ysgrifennu at wahanol
ddibenion ac mewn ystod o ffurfiau
gan ddefnyddio papur a thechnoleg
gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
ar gyfer cyfansoddi;

defnyddio llyfrau, cysyniad,
pwnc ac yn y blaen fel
symbyliad ar gyfer cynllunio

defnydd aml o
ddarllen a dweud
stori, er mwyn
pleser

Datblygu Sgiliau
laith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

darllen yw'r
allwedd i
ysgrifennu a
llafaredd yw'r
allwedd i ddarllen

amgylchedd llythrennedd dan do
ac awyr agored cyfoethog a
dynamig, lle caiff statws uchel ei
roi i siarad a gwrando, darllen ac
ysgrifennu

arddangosiadau o
ansawdd da sy'n
dangos ffurfiau a
dibenion ysgrifennu

digonedd o gyfleoedd o
ansawdd da i blant ddarllen ac
ysgrifennu ym mhob maes
dysgu

cynllunio cydbwysedd da rhwng
gweithgareddau strwythuredig ar
gyfer addysgu darllen ac ysgrifennu
a dulliau gweithredol yn
uniongyrchol, gan gynnwys dysgu
yn seiliedig ar chwarae;

Datblygu Sgiliau
Iaith,
Llythrennedd a
Chyfathrebu

cynllunio cyfleoedd i
ddisgyblion ddarllen ac
ysgrifennu mewn meysydd
darpariaeth barhaus dan do
ac yn yr awyr agored ac
mewn mannau chwarae rôl;

pu'n a yw disgyblion yn cael cyfleoedd i
ysgrifennu at wahanol ddibenion ac
mewn ystod o ffurfiau gan ddefnyddio
papur a thechnoleg gwybodaeth a
chyfathrebu (TGCh) ar draws y meysydd
dysgu

Yr Ardal Llyfrau

- caiff llyfrau eu harddangos yn ddeniadol ac maent ar gael yn hawdd
- llyfrau stori o ansawdd da, gan gynnwys storïau tylwyth teg hen a chyfoes
- barddoniaeth
- llyfrau jôc
- testunau ffeithiol
- testunau amlddiwylliannol
- llyfrau am Gymru
- testunau dwyieithog
- comics, pamffledi
- sachau stori
- pypedau
- canolfannau gwrando – cryno ddisgiau gyda llyfrau a chyfleusterau cyfatebol i blant recordio eu storïau, eu cerddi a'u dramâu



Yr Ardal Ysgrifennu

- ystod o ddeunyddiau ysgrifennu
- papur, cardiau post, amlenni, padiau nodiadau, nodau gludiog, ac ati
- cymorth ar gyfer ysgrifennu, er enghraifft dechrau a gorffen stori
- geiriau amlder uchel yn cael eu harddangos
- banciau geiriau testun
- Llyfrau dosbarth

- storïau â lluniau gyda phenawdau
- bwrdd arddangos plant
- symbyliadau ar gyfer ysgrifennu fel cardiau stori
- caiff ysgrifennu athrawon a disgyblion ei arddangos
- llythrennau magnetig
- byrddau gwyn bach a phinnau ffelt
- cyfrifiadur



Datblygiad Mathemategol

Llinynnau	Elfennau	Meithrin	Dosbarth derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2
		Mae plant yn gallu:	Mae plant yn gallu:	Mae plant yn gallu:	Mae plant yn gallu:
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau	trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth			
		adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad			
		dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio			
		dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol			
		dewis cyfarpar ac adnoddau priodol			
		defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif			
	Cynrychioli a chyfathrebu	defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain			
		cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd			
		dylunio a mireinio dulliau anffurfiol, personol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio geiriau a symbolau mewn brawddegau rhif			
	Adolygu	defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol			
		dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol			
		dehongli gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf siartiau a diagramau a dod i gasgliadau priodol			

Ystod o Brofiadau

- Dylai plant gael cyfleoedd i:
- gael profiad o amgylchedd sy'n fathemategol gyfoethog ac sy'n caniatáu iddynt ymchwilio a datblygu cysyniadau ac iaith fathemategol
- datblygu sgiliau mathemategol ymarferol mewn pob math o gyd-destunau
- cyfathrebu mewn pob math o gyd-destunau mathemategol at ddibenion a chynulleidfaoedd amrywiol
- ymarfer, datblygu a mireinio eu sgiliau mathemategol o fewn pob agwedd ar y ddarpariaeth, gan gynnwys darpariaeth barhaus a thrwy bob Maes Dysgu
- cael profiad o amrywiol gyfryngau a chymhellant gan gynnwys technolegau newydd
- deall a defnyddio amrywiol fesurau a gallu adnabod a defnyddio siapiau wrth chwarae ac o fewn gweithgareddau strwythuredig.

Cwricwlwm 2015 - Deall yn hytrach na gwneud

- egluro rhesymeg
- defnyddio geirfa
- cyfiawnhau dewisiadau
- dod i gasgliad eu hunain
- gwirio'u gwaith
- ateb yn synhwyrol
- bywyd go iawn / cyd-destynau amrywiol
- dewis strategaeth yn annibynnol
- darganfod rheolau a dulliau eu hunain
- adnabod pryd i ddefnyddio cyfrifiadau penodol

Rhoi'r arfau i'r plant




- ☐ sicrhau fod y sgiliau anghenrheidiol wedi eu cyflwyno cyn y dasg (llwybr briwsion bara / cerrig sarn)
- ☐ sicrhau fod y plant yn symud gam wrth gam drwy'r dilyniant yn annibynnol
- ☐ sicrhau fod gan pob plentyn yr arfau i ateb y dasg ond ddim yn rhy gyfforddus
- ☐ sicrhau fod y dasg yn ddiddorol ac yn addas i lefel cyrrhaeddiad y plentyn
- ☐ sicrhau fod pob plentyn yn cael eu herio
- ☐ dim arwain drwy'r dasg ond yn hytrach datblygu annibyniaeth
- ☐ sicrhau fod pob plentyn yn elwa o'r dasg - y rhifedd a'r pwnc
- ☐ sicrhau fod cefnogaeth ar gael drwy addasu / gosod tasgau ychwanegol/ gosod amodau / adnoddau

Ym mha ardaoedd ydych chi'n
ymarfer sgiliau rhifedd y disgyblion?

Graffeg
Chwarae Rol
Darganfod
Tywod
Dwr
Toes – hydrin
Darllen
Cerdd
Corfforol
TGaCH
Creu
Adeiladu
Byd Bach
Tu Allan
Pen Bwrdd
Rhif

mwyaf aml



lleiaf aml

Adnoddau i hybu cyfleoedd rhifedd yn yr ardaloedd

Adnoddau'r Darpariaeth Barhaus

- cloc
- calendr
- amserydd
- pren mesur
- tap mesur
- Adnoddau mesur amrywiol eraill
- clorian
- taflen cofnodi ar ffurf tabl
- cardiau cwestiynau
- sgerbydau cofnodi
- mesuryddion dŵr
- llinyn, gwlan, ruban
- 'multilink', clipiau papur, preniau lolipop , coes matsen....
- Sisyrnau
- Pensiliau ac offer ysgrifennu

- mapiau
- sgerbydau didoli - bocsys, cylchoedd, sgerbydau Venn a Carroll
- cyfrifiannellau
- cyfrifiaduron / ipad
- 'post-its'
- bwydlen
- til
- taflen prisiau
- tagiau prisiau
- amserlenni
- rhifau
- Clipfyrddau
- Llwyau a chwistrellwyr,
- boteli, bocsys, tuiau ac ati
- Cownteri ac adnoddau cyfrifo

Sgiliau sy'n cael eu datblygu yn yr ardaloedd

Nid tasg ymarfer yn unig ond :

- dangos eu bod wedi deall y sgil ac yn gwybod pryd i'w ddefnyddio
- adeiladu ar eu dealltwriaeth
- dyfnhau dealltwriaeth
- atgyfnerthu
- ymchwilio
- treialu
- arsylwi
- creu cysylltiadau
- arbrofi
- cwestiynu
- trafod

Beth yw nodweddion Tasg Ffocws Rhifedd / Mathemateg?

Yr Athro'n:

- Dewis gweithgareddau addas
- modelu
- Cwestiynu effeithiol
- Cyflwyno strategaethau
- Cyflwyno adnoddau
- Creu cysylltiadau a gwaith blaenorol
- Rhoi cyd-destun i'r gwaith

Y Plant yn :

- trafod
- Gofyn Cwestiynau
- arbrofi gyda'r adnoddau
- Rhoi cyd-destun gwahanol i'r gwaith
- Archwilio'r cysylltiadau a chreu rhai eu hunain
- Egluro'r gwaith yng ngeiriau eu hunain

- Agwedd o fathemateg
- canfod gwybodaeth flaenorol
- cyflwyno geirfa
- rhestru syniadau
- cwestiynu a thrafod
- Gweithgareddau cychwynol
- sbarduno a hybu meddwl
- Modelu strategaethau
- defnyddio adnoddau
- cynnig cymorth
- gwaith pen

cwestiynau rhesymu

- Ymarfer annibynnol
- Atgyfnerthu cysyniadau
- Lefelau penodol
- Gwaith ymarferol
- Taflen pwrpasol
- adnoddau pwrpasol i ddatblygu strategaethau

Gweithgareddau i
gyflwyno

Gweithgareddau i
ymarfer

Gwahaniaeth

VAK

Cymhwyso'n
drawsgwricwlaidd

Cymhwyso'n
fathemategol

cwestiynau rhesymu

- Cyd-destun mathemategol dydd i ddydd
- Problemau geiriol
- Ymchwiliadau
- Tasgau ymresymu

Asesu ar gyfer
Dysgu

- Adnabod elfen / llinyn o'r Fframwaith Rhifedd
- Adnabod pwnc i gymhwyso
- Cefndir pynciol
 - Cwestiwn mawr
 - Lefelau amrywiol
- Gweithgareddau penagored amlhaenog
- Pennu'r broses
- Datblygu'r broblem – trywydd eu hunain

Dulliau Addysgu

dilyniant sgiliau

dilyn cyfarwyddiadau i
berfformio'r sgil



```
graph TD; A[dilyn cyfarwyddiadau i  
berfformio'r sgil] --> B[ailadrodd y sgil mewn cyd-  
destun tebyg]; B --> C[adnabod y sgil ar gyfer y dasg]; C --> D[cymhwyso'r sgil mewn amryw  
o gyd-destunau yn annibynnol]; D --> E[cysylltu a throsglwyddo'r sgil i  
gyd-destunau eraill.];
```

ailadrodd y sgil mewn cyd-
destun tebyg

adnabod y sgil ar gyfer y dasg

cymhwyso'r sgil mewn amryw
o gyd-destunau yn annibynnol

cysylltu a throsglwyddo'r sgil i
gyd-destunau eraill.

Uned o Waith gyda phwyslais ar ddyfnder - Adio rhifau dau ddigid

Gwaith mathemateg Pen

$$42 + 4 =$$

$$16 + 10 =$$

$$17 + 20 =$$

$$42 + 14 =$$

$$43 + 24 = \text{dim pontio}$$

Gwaith Byrddau targed

Strategaethau Pen

Adalu, dosrannu, dad-elfennu, dyblau agos, pontio, defnyddio gwerth lle

Adnoddau

Llinellau rhif—neidio fesul un / deg

Numicon

Sgwar 100—ar draws ac i lawr

Cyfrifiadau gwrthdro

$$16 + 23 = 39$$

$$23 + 16 = 39$$

$$39 - 23 = 16$$

$$39 - 16 = 23$$

Creu cysylltiadau

Rhifau coll

$$16 + \underline{\quad} = 46$$

$$42 + \underline{\quad} = 48$$

Dim pontio

Beth sy'n raid i mi fwydo i'r cyfrifiannell i newid 57 yn 99?

Cyfrifiadau Pontio 10

$$43 + 8 =$$

$$44 + 27 =$$

$$16 + \underline{\quad} = 82$$

Os yw $67 + 14$ yn 81, beth yw $67 + 16$?

$$74 = \underline{\quad} + \underline{\quad}$$

Cyfrifo safonol—colofnau

D.U. D.U.

6 4 3 6

+ 2 3 + 2 ?

5 9

Heb pontio

Pontio

D.U. D.U.

6 7 3 7

+ 2 6 + 4 8

8 0 8 5

1 3 = 93

+ atebion dros 100

Gwirio

- Gwrthdro

Camgymeriadau

$$67 + 46 = 1013$$

114

Amcangyfrif a brasrannu

$$65 + 37 = 60 + 40 = 100$$

Ydi $36 + 49$ yn fwy neu llai na 80?

Pam na ellith yr ateb fod yn odrif?

Cyd-destun mesurau

$$27\text{c} + 59\text{c} =$$

$$43\text{cm} + 65\text{cm} =$$

Problemau geiriol amrywiol—cyflwyno geirfa adio

Model bar Singapore

Matiâu a sleidiau amrywiol

E.e. peiriant diod

Brechdarau Bob

Ymchwiliadau

Walïau adio—ble fyddai'r lle gorau i roi y rhifau er mwyn cael y rhif mwyaf yn y blwch uchaf


Enghreifftiau o'r papurau profion gweithdrefnol ac ymresymu

Trawsgwriawliodd

E.e. dadarsoddi a dehongli data, graffïau, tablau,

Cyflwyno ystod eang o gyfrifiadau

- $9 + 3 = \underline{\quad} + 9$
 - $30 - 7 + \underline{\quad} = 30$
 - $\underline{\quad} + \underline{\quad} + \underline{\quad} = 15$
-
- $4 \times 5 = 5 + 5 + 5 + \underline{\quad}$
 - Os yw $6 \times 10 = 60$, yna mae $6 \times 5 \times \underline{\quad} = 60$
 - $15 \div 5 = 30 \div \underline{\quad}$
 - $\underline{\quad} \times 4 = 24$
 - $25 \div 5 = \underline{\quad}$. Gwirio $\underline{\quad} \times \underline{\quad} = \underline{\quad}$
 - $3 \times \underline{\quad} + 3 = 15$
 - $\underline{\quad} \times 10 = 300$
 - $3 \times 8 \div 8 = \underline{\quad}$



Cynllunio tasgau cyfoethog



Cynnwys ystod a sgiliau pynciol perthnasol.

Adeiladu ar eu dysgu blaenorol

Diddorol i'r plant

Cyfle i wneud gwaith ymarferol

Cynnwys elfennau'r Rhaglen Astudio mathemateg oedran penodol.

Mynediad i pob plentyn

Cyfle i ddangos eu dealltwriaeth o elfennau amrywiol ac oed penodol

Amrywiaeth o opsiynau o fewn y dasg

Cyfle i ddefnyddio eu sgiliau mathemategol a phynciol mewn cyd-destun

Cyfleoedd i wneud penderfyniadau, i ymchwilio, datrys problemau, cofnodi, trafod a.y.b




Codi'n naturiol o waith dydd i ddydd y dosbarth/thema

Dyfnhau eu dealltwriaeth o'r elfen a'r pwnc

Tystiolaeth

- Darlun , diagram mathemaetgol
- Llun camera
- Cyfres o gyfrifiadau
- Tabl
- Graff
- Gwrthrych
- Arsylwad oedolyn – ymatebion y plant
- Recordio llais / ffilmio chwarae rol

Defnyddio Llyfr fel symbyliad i gynllunio
tasgau Llythrennedd a Rhifedd heriol yn
yr ardaloedd.



Cwestiynau i'w gofyn wrth ddewis llyfr fel sail ar gyfer gosod tasgau llythrennedd heriol?:

Man cychwyn –
Ysgogol a
diddorol

Genres

Cyfleoedd i
ddatblygu sgiliau
Llythrennedd ar
draws y
Meysydd Dysgu

Ieithyddol
Gyfoethog

Deffro'r
dychymyg

Mynegi Barn

Datblygu sgiliau
penodol-
gramadeg,
atalnodi ayyb.

Y Llyfr



Cwestiynau i'w hystyried
wrth ddewis llyfr i
ddatblygu sgiliau rhifedd

Cyd-destunau
I broblemau

Cyfle i fapio
llwybrau /
taith

Gwybodaeth i
gofnodi a
dosbarthu,
dehongli

Llyfr – Chwarae
rol a threfnu
gweithgareddau
'real'


Arbrawf,
arsylwi ac
arolwg

Rhifau –
cyfrif a
chyfrifo


Mesur – a
chreu
rhywbeth o'r
newydd

Cynllunio tasgau i ymestyn bob plentyn/ grwp

- Beth yw'r dasg?
- I bwy mae'r dasg?
- Pam mae'r plentyn yn gwneud y dasg?
- Pa sgil/ deilliant sy'n cael ei daro?
- Ydi'r dasg o fewn diddordeb y plentyn?
- Ydi'r dasg yn adeiladu ar ei wybodaeth blaenorol?
- Ydi'r plentyn yn cael cyfle i ymarfer ei dargedau yn y dasg?
- Ydi'r dasg yn ailadroddus?
- Beth fydd y tystiolaeth?



Gweithgaredd



Uwch Oleuwch sgil Llythrennedd / Rhifedd
Meddyliwch am dasg
Pa ardal o ddarpariaeth?
Gwahaniaethwch y dasg.

